

# Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus

## 1. Rhagarweiniad

- 1.1 Mae Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar bob Prif Gyngor i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.
- 1.2 Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus yn cefnogi Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r cyngor.
- 1.3 Nod y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus yw hyrwyddo:
  - A. Swyddogaethau'r Prif Gyngor.
  - B. Sut i ddod yn Aelod (Cynghorydd) o'r Prif Gyngor, a'r hyn y mae aelodaeth (Bod yn Gynghorydd) yn ei olygu.
  - C. Cael mynediad at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y prif gyngor.
  - D. Cyflwyno sylwadau i'r prif gyngor ynghylch penderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud.
  - E. Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben dyletswydd y cyngor yn adran 62 o Fesur 2011 (dwyn barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu).
  - F. Manteision Cynghorwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

## Adran A. Swyddogaethau'r Prif Gyngor.

### 2.1 Sut mae'r cyngor yn gweithredu

Mae pob un o'r 75 o gynghorwyr yn cyfarfod fel y cyngor. Mae cyfarfodydd y cyngor fel arfer yn agored i'r cyhoedd, ond ambell waith bydd y cyngor yn penderfynu mynd i sesiwn breifat os yw busnes cyfrinachol neu eithriedig i'w drafod. Mae sesiynau preifat y cyngor yn brin.

- 2.3 Yng nghyfarfodydd y cyngor mae'r Cynghorwyr yn penderfynu ar bolisiâu cyffredinol y cyngor ac yn pennu'r gyllideb bob blwyddyn. Mae gan y cyngor Gabinet sy'n gyfrifol yn ei dro am weithredu polisiâu y cytunwyd arnynt gan y cyngor a gwneud penderfyniadau gweithredol ar faterion nad ydynt yn gyfrifoldeb y cyngor na'i bwyllgorau.

## **2.4 Sut mae'r cyngor yn gweithio**

- 2.5 Mae'r cyngor yn cynnwys 75 o gynghorwyr sy'n cynrychioli 32 ward etholiadol. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.abertawe.gov.uk/proffiliauwardiau](http://www.abertawe.gov.uk/proffiliauwardiau) Mae'r cyngor fel arfer yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo restr o swyddogaethau gan gynnwys mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad, cymeradwyo a mabwysiadu'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, penodi Arweinydd y Cyngor, pennu a chytuno ar Bwyllgorau a'u cylch gorchwyl.
- 2.6 Mae'r Cabinet (y Weithrediaeth) yn cynnwys sawl cynghorydd (gall hyn gynnwys Aelodau'r Cabinet sy'n rhannu swydd). Arweinydd y Cyngor yw Cadeirydd y Cabinet. Mae'r Cabinet yn gyfrifol am gyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb y cyngor. Mae Aelodau'r Cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn meysydd diddordeb penodol, a elwir yn Bortffolios y Cabinet.
- 2.7 Mae Pwyllgorau Craffu'n gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo gwell gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau. Drwy weithio mewn ffordd debyg i Bwyllgorau Dethol Seneddol, mae craffu'n cynnwys Cynghorwyr nad ydynt yn y Cabinet.
- 2.8 Y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgorau Trwyddedu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gwneud penderfyniadau rheoleiddio'r cyngor.
- i) Y Pwyllgor Cynllunio sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio.
  - ii) Y Pwyllgor Trwyddedu Statudol sy'n pennu trwyddedau adloniant cyhoeddus ar gyfer eiddo, ymysg eraill.
  - iii) Y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol sy'n pennu trwyddedau i yrru cerbydau hacni neu gerbydau hurio preifat (taxis).
  - iv) Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu materion ariannol y cyngor ac yn craffu arnynt.
  - v) Mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr Awdurdod i gyflawni swyddogaeth y gwasanaethau democrataidd.
  - vi) Mae'r Pwyllgor Safonau'n ceisio hyrwyddo safonau ymddygiad uchel a chefnogi Cynghorwyr i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad.

## **3. Strwythur gwneud penderfyniadau'r cyngor**

### **3.1 Y cyngor**

- i) Mae pob un o'r 75 o gynghorwyr yn cwrdd yn fisol fel arfer ac maent yn gyfrifol am y canlynol:
- ii) Cytuno ar y gyllideb.
- iii) Cytuno ar fframwaith polisi corfforaethol.

- iv) Penderfynu ar fframwaith rheoli gwleidyddol.
- v) Penodi Arweinydd y Cyngor.
- vi) Penodi Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr.
- vii) Pob swyddogaeth anweithredol arall a nodwyd.

### **3.2 Y Cabinet**

- i) Mae'n cynnwys uchafswm o 10 Cyngorydd sydd â phleidlais, gan gynnwys Arweinydd y Cyngor. Caniateir Aelodau'r Cabinet sy'n rhannu swydd
- ii) Penodir y Cabinet gan Arweinydd y Cyngor.
- iii) Neilltuir Portffolio Cabinet thematig i bob Aelod Cabinet.
- iv) Y Cabinet sy'n cynnig polisiau a chyllideb i'r cyngor
- v) Mae'r Cabinet yn rhoi polisiau'r cyngor ar waith dan arweiniad gwleidyddol Arweinydd y Cyngor.
- vi) Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau gweithredol dirprwyedig, yn unol â pholisi a chyllideb y cyngor.

### **3.3 Craffu**

- i) Mae un Pwyllgor Craffu, sef Pwyllgor y Rhaglen Graffu.
- ii) Paneli Ymchwiliad Craffu â thema ar faterion penodol sy'n peri pryder.
- iii) Paneli Perfformiad Craffu â thema ar faterion penodol sy'n peri pryder
- iv) Gweithgorau Craffu â thema ar faterion penodol sy'n peri pryder
- v) Mae craffu yn dal y Cabinet (y weithrediaeth) i gyfrif, gan gynnwys cyfrifoldeb am graffu cyn penderfynu a phenderfyniadau galw i mewn.
- vi) Monitro a herio effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth, polisiau a pherfformiad a gwelliant.

### **3.4 Pwyllgorau, Paneli, Grwpiau etc.**

- i) Gellir gweld rhestr o Bwyllgorau, Paneli, Grwpiau etc. y cyngor yn <https://democracy.swansea.gov.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=1>
- ii) Gellir cael gwybodaeth bellach mewn perthynas â Chynghorwyr a Phwyllgorau yn [www.abertawe.gov.uk/democratiaeth](http://www.abertawe.gov.uk/democratiaeth)
- iii) Gellir gweld cylch gorchwyl cyrff y cyngor yn <https://democracy.swansea.gov.uk/mgGeneric.aspx?MD=mglistcommc atconstitution&bcr=1&LLL=1>

**Adran B. Sut i ddod yn Aelod (Cyngorydd) o'r Prif Gyngor, a'r hyn y mae aelodaeth (Bod yn Gyngorydd) yn ei olygu.**

## **4. Sut i ddod yn Gyngorydd**

- 4.1 Cynhelir yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i sefyll mewn etholiad a'r hyn a ddisgwylir gennych petaech yn cael eich ethol yn Gyngorydd ar Gyngor Abertawe.
- 4.2 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi creu gwefan "Byddwch yn Gyngorydd. Sicrhewch mai chi yw'r Newid. " Mae hwn yn arweiniad defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr. Gallwch weld y wefan yn <https://www.wlga.cymru/be-a-councillor-be-the-change>
- 4.3 Mae gan Gyngor Abertawe wefan "Byddwch yn Gyngorydd" ddefnyddiol. Gallwch weld y wefan yn [www.abertawe.gov.uk/Byddwchyngyngorydd](http://www.abertawe.gov.uk/Byddwchyngyngorydd)

## 5. Faint o amser mae'n ei gymryd i gyflawni rôl Cyngorydd?

- 5.1 Os oes gennych swydd ac rydych yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd efallai y byddwch am ofyn i'ch cyflogwr pa ddarpariaethau sydd ganddo yn eu lle i'ch galluogi i roi sylw i fusnes y cyngor. Amcangyfrifir bod cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i dri i bedwar diwrnod yr wythnos ar fusnes y cyngor. Yn amlwg, mae rhai cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hyn, a rhai yn treulio llai.

## 6. Sefyll fel Ymgeisydd

- 6.1 Rhaid i ymgeisydd etholiad gwblhau set gyflawn o bapurau enwebu y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu llofnodi ym mhresenoldeb tyst y mae'n rhaid iddo ardystio'r llofnod. Yna mae angen i chi ennill mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn y blwch pleidleisio (os oes cystadleuaeth am y sedd). Mae gan rai wardiau etholiadol hyd at 5 Cyngorydd, felly byddai'r 5 uchaf yn cael eu hethol.
- 6.2 Bydd pecynnau enwebu ar gael ar ddechrau 2027. Os hoffech gofrestru'ch diddordeb, ffoniwch y [Gwasanaethau Etholiadol](tel:01792636123) ar 01792 636123. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ddefnyddiol yn <https://www.abertawe.gov.uk/etholiadau>
- 6.3 Os ydych yn ystyried sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol benodol, yna dylech gysylltu â sefydliad lleol y blaid honno'n gyntaf. Os ydych yn bwriadu sefyll etholiad fel Cyngorydd annibynnol, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o roi rhagor o wybodaeth i chi.
- 6.4 Mae cynghorwyr yn derbyn cyflog a bennir yn flynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) a gallant hefyd hawlio costau teithio a chynhaliaeth (telir cynhaliaeth am brydau a llety 'y tu allan i'r sir' yn unig) wrth gyflawni dyletswyddau swyddogol. Gall cynghorwyr hefyd hawlio

tuag at gostau gofal a chymorth personol er mwyn iddynt gyflawni'u dyletswyddau cymeradwy.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am gyflogau a lwfansau Cyngorwyr yn <https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol>

## **7. Cefnogaeth i Ymgeiswyr Anabl sy'n sefyll mewn etholiad**

- 7.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun peilot i ariannu addasiadau rhesymol a chefnogaeth i ymgeiswyr anabl sy'n ceisio cael eu hethol i'r etholiadau Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://www.disabilitywales.org/projects/access-to-elected-office-fund-wales/?lang=cy>

## **8. Beth mae bod yn Gynghorydd yn ei olygu?**

- 8.1 Mae'r cyngor yn cynnwys 75 cynghorydd sy'n cael eu hethol bob pedair blynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i breswylwyr eu ward etholiadol. Mae prif ddyletswydd Cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na phleidleisiodd drostynt.
- 8.2 Ar ôl eu hethol, disgwylir i Gynghorwyr fynd i sesiynau hyfforddi a datblygu amrywiol yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Darperir sesiwn Sefydlu Cynghorwyr i bob Cynghorydd newydd a chynghorydd sy'n dychwelyd yn ystod y 12 mis cyntaf yn y swydd, gyda hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu'n barhaus drwy ddigwyddiadau datblygu aelodau. Dylai Cynghorwyr neilltuo amser yn ystod y 3 mis cyntaf ar ôl yr etholiad ar gyfer Sesiwn Sefydlu Cynghorwyr.
- 8.3 Disgwylir i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau a rhaid iddynt gadw at ddarpariaethau Côt Ymddygiad Cynghorwyr. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn <https://democracy.swansea.gov.uk/undefined>
- 8.4 Gall cynghorwyr fynychu cyfarfodydd y cyngor, y Cabinet a'r rhan fwyaf o Gyfarfodydd Pwyllgor yn gorfforol neu o bell. Gelwir y rhain yn Gyfarfodydd Aml-leoliad (CAL). Gallant fod yn ddefnyddiol i bobl â chyfrifoldebau megis gwaith, gofalu etc., drwy ganiatáu iddynt gymryd rhan o leoliad sy'n gyfleus iddynt.
- 8.5 Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan Gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a sefydliadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar yr hyn y mae'r Cynghorydd am ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael, a gallant gynnwys: mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ei ward, mynychu cyfarfodydd sefydliadau lleol megis cymdeithasau tenantiaid, cyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach, codi materion ar ran aelodau'r cyhoedd, cynnal cymorthfeydd i breswylwyr godi materion a chyfarfod â phreswylwyr unigol yn eu cartrefi eu hunain.

- 8.6 Mae gan gynghorwyr hawl i gyflog sylfaenol (£16,800 y flwyddyn yn 2022-2023). Telir cyflogau uwch a lwfansau/threuliau eraill yn dibynnu ar y rolau a'r cyfrifoldebau a all fod gan y Cynghorydd ar ôl yr etholiad.
- 8.7 Mae gan gynghorwyr hefyd hawl i lwfansau teithio a gall y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd dderbyn cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol.
- 8.8 Gellir gweld rhagor o wybodaeth am daliadau ac Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn <https://llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol>

## 9. Cyfleusterau a Chefnogaeth i Gynghorwyr

- 9.1 Mae Tîm y Gwasanaethau Democrataidd yn gweinyddu cyfarfodydd y cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau etc., ac yn darparu gwasanaeth cefnogi penodol, gan roi cyngor ar y gyfraith ac arferion cyfarfodydd i Gynghorwyr, Swyddogion, a'r cyhoedd. Mae'r Tîm hefyd yn helpu Cynghorwyr gydag ymholiadau a cheisiadau gweinyddol.
- 9.2 Mae offer a systemau Data (band eang), TGCh a Chyfathrebu Llais yn hanfodol i alluogi Cynghorwyr i gyflawni'u cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn ddiogel. Mae Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr yn rhoi lwfans i Gynghorwyr er mwyn darparu cyfleusterau ffôn ac e-bost digonol iddynt, ynghyd â mynediad electronig i wybodaeth briodol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn [www.swansea.gov.uk/cllrsict](http://www.swansea.gov.uk/cllrsict)
- 9.3 Bydd cynghorwyr hefyd yn cael cyfeiriad e-bost yn y fformat canlynol [cyng.enwcyntaf.cyfenw@abertawe.gov.uk](mailto:cyng.enwcyntaf.cyfenw@abertawe.gov.uk) y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth gynnal busnes y cyngor. Mae holl gyfarfodydd y cyngor yn ddi-bapur, ac argymhellir bod pob ymgeisydd yn gallu defnyddio TG yn hyderus neu'n fodlon ymgymryd â hyfforddiant.

**Adran C. Cyrchu gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y Prif Gyngor.**

## 10. Hysbysiadau o gyfarfodydd

- 10.1 Bydd y cyngor yn rhoi o leiaf tri diwrnod gwaith clir o rybudd am unrhyw gyfarfod ffurfiol (ac eithrio cyfarfodydd y cyngor a'r Cabinet) drwy bostio manylion yn electronig ar wefan y cyngor. Ar gyfer cyfarfodydd y cyngor a'r Cabinet, nod Cyngor Abertawe yw rhoi pum niwrnod gwaith clir o rybudd. Gellir gweld gwefan y cyngor yn [www.abertawe.gov.uk/](http://www.abertawe.gov.uk/)

- 10.2 Fodd bynnag, bydd eithriad yn codi lle mae'r cyngor wedi derbyn cais gan yr Heddlu o dan adran 53A o Ddeddf Trwyddedu 2003 am adolygiad o drwydded mangre (mae'n ofynnol i'r cyngor benderfynu a ddylid cymryd unrhyw fesurau rhagarweiniol o fewn 48 awr i dderbyn y cais), gall y cyngor roi llai na 3 diwrnod clir o rybudd o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a alwyd i ystyried y cais.

## **11. Mynediad at agendâu ac adroddiadau cyn y cyfarfod**

- 11.1 Bydd copïau o'r agenda a'r adroddiadau sy'n agored i'r cyhoedd ar gael i'w harchwilio yn [www.abertawe.gov.uk/democratiaeth](http://www.abertawe.gov.uk/democratiaeth)
- 11.2 Os bydd eitem frys yn cael ei hychwanegu at yr agenda ar ôl i'r agenda gael ei chyhoeddi'n wreiddiol, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd yn postio'r rhaglen ddiwygiedig ac yn adrodd ar y wefan pan fydd ar gael. Bydd cyfnod yr archwiliad cyhoeddus o'r adeg yr ychwanegwyd yr eitem at yr agenda.

## **12. Mynediad at gofnodon etc., ar ôl y cyfarfod**

- 12.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r canlynol ar gael ar ei wefan am gyfnod o chwe blynedd ar ôl cyfarfod:
- i) Cofnodion cyfarfodydd ffurfiol y cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau neu gofnod o benderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet.
  - ii) Yr Agenda ar gyfer y cyfarfod.
  - iii) Adroddiadau'n ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd nodyn penderfyniad sy'n nodi manylion, presenoldeb, unrhyw fuddiannau a ddatganwyd, a phenderfyniadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod o fewn 7 niwrnod i'r cyfarfod.

## **13. Mynediad er mwyn gwyllo cyfarfodydd\***

- 13.1 Bydd y cyngor yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn gallu mynd i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd neu eu gweld naill ai:
- i) Yn bersonol (mae hyn yn dibynnu ar reoliadau cadw pellter cymdeithasol ac mae rhan o'r cyfarfod yn cynnwys presenoldeb corfforol).
  - ii) Drwy fideo-gynadledda os yw'n gwneud sylwadau/gofyn cwestiynau.
  - iii) Drwy wyllo cyfarfod yn fyw drwy ein tudalen gweddarllediadau neu o'r archif (bydd y gweddarllediad ar gael i'w weld am 6 mis). Gellir gwneud ceisiadau am gopïau o we-ddarllediadau wedi'u harchifo y tu hwnt i 6



mis drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd – efallai y codir tâl gweinyddol bach am y gwasanaeth hwn.

**Sylwer:** Nid yw hyn yn berthnasol pan fo gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei thrafod.

## **ADRAN CH. Cyflwyno sylwadau i'r Prif Gyngor ynghylch penderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud.**

### **14. Y cyngor a'r Cabinet**

- 14.1 Gall aelodau'r cyhoedd, os ydynt yn byw yn y sir, yn berchen ar fusnes sydd wedi'i leoli yn y sir neu'n cael eu cyflogi o fewn y sir ofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y cyngor, y Cabinet a Phwyllgor y Rhaglen Graffu. Rhaid i gwestiynau ymwneud ag eitem ar yr agenda ac ymdrinnir â hwy yn ystod y cyfnod o 10 munud a neilltuwyd ar yr agenda.
- 14.2 I ofyn cwestiwn mae angen i chi anfon eich cwestiwn yn ysgrifenedig (drwy e-bost yn ddelfrydol) i [democratiaeth@abertawe.gov.uk](mailto:democratiaeth@abertawe.gov.uk) erbyn hanner dydd fan bellaf, ar y diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Fel arall, gallwch fynyachu'n gorfforol a chyn belled ag nad yw'r cyfnod o 10 munud wedi'i ddefnyddio gan y rheini sy'n cyflwyno ymlaen llaw, gallwch ofyn cwestiwn llafar.
- 14.3 Wrth gyflwyno'ch cwestiwn, rhaid i chi gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad (rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad eich busnes os ydych yn berchen ar fusnes yn Abertawe neu'n gweithio yn Abertawe ond yn byw yn rhywle arall) a'r Eitem Agenda y mae'n ymwneud â hi.
- 14.4 Mae'r cyngor hefyd yn croesawu deisebau ac yn cydnabod bod deisebau'n un o lawer o ffyrdd y gall pobl roi gwybod i ni am eu pryderon a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae copi o Gynllun Deisebau'r cyngor ar gael yn <https://www.abertawe.gov.uk/Deisebau>

### **15. Craffu**

- 15.1 Gweler yr adran benodol ar Graffu isod neu yn [www.abertawe.gov.uk/craffu](http://www.abertawe.gov.uk/craffu)

### **16. Cynllunio a Thrwyddedu**

- 16.1 Gellir gweld gwybodaeth bellach yn:

- i) [www.abertawe.gov.uk/cynllunio](http://www.abertawe.gov.uk/cynllunio)

- ii) Hawliau Siarad mewn Pwyllgor Cynllunio. Gweler  
[https://democracy.swansea.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=539&MI  
d=7349&Ver=4&Info=1&LLL=1](https://democracy.swansea.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=539&MI<br/>d=7349&Ver=4&Info=1&LLL=1)
- iii) [www.abertawe.gov.uk/trwyddedu](http://www.abertawe.gov.uk/trwyddedu)

**Adran D. Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben dyletswydd y cyngor yn adran 62 o Fesur 2011 (dwyn barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu)**

**17. Sut gallaf gymryd rhan mewn Craffu?**

- 17.1 Mae craffu'n rhoi cyfle i'r cyhoedd (preswylwyr, sefydliadau cymunedol, partneriaid etc.), gymryd rhan yng ngweithgareddau'r cyngor. Os ydych yn byw yn Abertawe neu'n berchen ar fusnes neu'n gyflogedig yn Abertawe, gallwch ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd Craffu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Rheolau'r Weithdrefn Graffu yng nghyfansoddiad y cyngor <https://democracy.swansea.gov.uk/mgGeneric.aspx?MD=mglistcommcatconstitution&bcr=1&LLL=1>
- 17.2 Cymryd rhan mewn craffu yw un o'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar benderfyniadau'r cyngor, gan y bydd Cynghorwyr yn clywed eich profiadau'n uniongyrchol. Mae sawl ffordd y gallwch chi gymryd rhan yng ngwaith craffu'r cyngor:
- i) Mynd i gyfarfod Craffu.
  - ii) Gofyn cwestiwn i Aelodau'r Cabinet drwy'r Pwyllgor Craffu, naill ai drwy Sesiwn Holi'r Cyhoedd ar gyfer cyfarfod penodol, neu'n gyffredinol ewch i <https://www.abertawe.gov.uk/cwestinaelodycabinet>
  - iii) Awgrymu pwnc i graffu arno, drwy fynd i <https://www.abertawe.gov.uk/hoffechchigodimatergydachraffu>
  - iv) Cyfrannu barn/tystiolaeth ynghylch materion sy'n cael eu harchwilio gan Graffu.
  - v) Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym maes Craffu.
- 17.3 Mae pob cyfarfod craffu'n agored i'r cyhoedd ac eithrio lle mae'n rhaid trafod gwybodaeth eithriedig. Ceir rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd ac eitemau ar yr agenda yn [www.abertawe.gov.uk/democratiaeth](http://www.abertawe.gov.uk/democratiaeth). Os hoffech fynd i gyfarfod (yn gorfforol neu o bell) dilynwch y cyfarwyddiadau ar yr agenda.

**18. Y diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym maes Craffu**

- 18.1 I dderbyn diweddariadau ar Graffu, gallwch:
- i) Lawrlwytho ap Modern.gov. Mae'r ap ar gael ar Android, Apple ac Windows. Bydd yr ap yn eich galluogi i weld yr agendâu a'r adroddiadau'n awtomatig.
  - ii) Blog Craffu. [www.swanaseascrutiny.co.uk/?lang=cy](http://www.swanaseascrutiny.co.uk/?lang=cy)
  - iii) Cofrestru ar gyfer [Cylchlythyr Craffu](#).

- iv) Twitter. <https://twitter.com/swanseascrutiny>

## 19. Cyfrannu Tystiolaeth ar gyfer Ymholiadau Craffu

- 19.1 Wrth wneud gwaith craffu, yn enwedig ymchwiliadau manwl, mae Cynghorwyr yn gobeithio derbyn ystod eang o dystiolaeth o nifer o ffynonellau. Bydd cyflwyno tystiolaeth yn helpu i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed a bod y Cynghorwyr yn gwneud argymhellion a fydd yn gwella'r gwasanaethau o safbwynt defnyddiwr. Os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw faterion a hoffech gyflwyno tystiolaeth, cysylltwch â ni:

**Tim Craffu**, Cyngor Abertawe, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE  
Ffôn: 01792 63 7732 | E-bost: [scrutiny@abertawe.gov.uk](mailto:scrutiny@abertawe.gov.uk)

### **Adran Dd. Manteision Cynghorwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.**

- 20.1 Mae cyfryngau cymdeithasol yn arf pwerus i Gynghorwyr, gan eu helpu i ymgysylltu â chymunedau, cynyddu ymwybyddiaeth o faterion a digwyddiadau cymunedol, neu fentrau'r cyngor ac i geisio barn a derbyn adborth.
- 20.2 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio, mae'n gwneud gwleidyddion a sefydliadau cyhoeddus yn fwy hygyrch, yn galluogi i leisiau unigolion gael eu clywed ac yn helpu i rannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd.
- 20.3 Drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gallwch wneud y canlynol:
- i) Dysgu am faterion lleol, a phryderon o fewn eich ward.
  - ii) Dod o hyd i'r newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf gan Gyngor Abertawe, Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
  - iii) Hyrwyddo'ch rôl a'r hyn rydych yn ei wneud o ddydd i ddydd.
  - iv) Rhannu gwybodaeth yn gyflym a chael barn eich etholwyr.
- 20.4 Mae llawer o Gynghorwyr eisoes yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol; fodd bynnag, rhaid i Gynghorwyr gofio eu bod yn rhwym i'r Côd Ymddygiad gan ei fod yr un mor berthnasol i gynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Mae cynghorwyr yn bersonol gyfrifol am y cynnwys y maent yn ei gyhoeddi a rhaid iddynt gadw at y Côd Ymddygiad wrth bostio gwybodaeth.

20.5 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu canllawiau am ddim i Gyngorwyr ynghyd â rhai awgrymiadau a chyngor ar ymdrin â cham-drin ar-lein. <https://www.wlga.cymru/social-media-and-online-abuse>